**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Pwyllgor** | **Memorandwm Esboniadol**

**Priffyrdd a Thrafnidiaeth**

## Rhagymadrodd

1. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi yn unol â Rheol Sefydlog 22.14. Mae'n nodi cefndir y darpariaethau yn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Pwyllgor sydd ynghlwm, sef gorchymyn a fyddai'n rhoi rhagor o gymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n esbonio hyd a lled y pŵer y gofynnir amdano.

2. Mae cyd-destun cyfansoddiadol y cais hwn wedi'i nodi gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006) a pholisi Llywodraeth y DU. Nododd Papur Gwyn Llywodraeth y DU "Trefn Lywodraethu Well i Gymru " a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2005 ymrwymiad Llywodraeth y DU i wella pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel sefydliad sydd wedi'i ethol yn ddemocrataidd a chanddo ei weithdrefnau manwl ei hun ar gyfer gwaith craffu.

3. Mae adran 95 o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer i'w Mawrhydi roi cymhwysedd, drwy Orchymyn Cyfrin Gyngor, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar faterion penodedig. Gall y materion hyn gael eu hychwanegu at Feysydd yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth a allai gael ei gwneud drwy Ddeddf Seneddol (ac felly maen nhw'n cael diwygio deddfwriaeth sydd eisoes yn bod a gwneud darpariaethau newydd), mewn perthynas â materion, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 3 o Ddeddf 2006. Cyfeirir at Orchymyn Cyfrin Gyngor o dan adran 95 o Ddeddf 2006 fel Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn y memorandwm hwn.

4. Caniateir i faterion gael eu mewnosod yn y meysydd a geir yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006, naill ai drwy Ddeddf Seneddol neu drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, a gymeradwyir gan y Cynulliad a chan ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig. Mae'r ail ddull yn caniatáu i'r Cynulliad ddechrau'r broses ar gyfer rhoi cymhwysedd o'r fath, drwy gyfrwng Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

5. Byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig yn rhoi rhagor o gymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ym maes Priffyrdd a Thrafnidiaeth (maes 10, Rhan 1, Atodlen 5 i Ddeddf 2006).

6. Bydd pwerau deddfu newydd mewn perthynas â'r "mater" penodedig yn galluogi Gweinidogion Cymru, Aelodau'r Cynulliad a Phwyllgorau'r Cynulliad i gyflwyno cynigion cydlynol ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau, a seilir ar flaenoriaethau ac amserlenni Cymru. Rhaid i'r Mesurau hyn fod yn destun gwaith craffu trylwyr gan y Cynulliad a chael eu cymeradwyo ganddo.

7. Ar 17 Hydref 2007 cafodd deiseb oddi wrth Sustrans ei chyflwyno i'r Pwyllgor Deisebau i gael ei hystyried. Anogodd y ddeiseb y Cynulliad i geisio pwerau er mwyn i Weinidogion Cymru gael gosod dyletswydd ar yr awdurdodau priffyrdd i ddatblygu a chynnal rhwydwaith o lwybrau didraffig i gerddwyr a beicwyr ledled Cymru. Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth gychwynnol i'r ddeiseb hon yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd 2007.[1] Cymerodd y pwyllgor dystiolaeth gan y deisebwyr ar 6 Rhagfyr 2007 gan benderfynu yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2008 y dylid cyfeirio'r ddeiseb at y Pwyllgor Menter a Dysgu i gael ei hystyried ymhellach.

8. Ystyriodd y Pwyllgor Menter a Dysgu y ddeiseb ar 3 Gorffennaf 2008 gan benderfynu paratoi Gorchymyn posibl mewn perthynas â llwybrau troed a llwybrau beicio at ddibenion ymgynghori. Cytunwyd arno wedyn gan y pwyllgor yn ei gyfarfod ar 24 Medi 2008. Yna cymerodd y pwyllgor dystiolaeth gan nifer o dystion ar y Gorchymyn posibl. Yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin 2009 cytunodd y Pwyllgor Menter a Dysgu y byddai'n gosod Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig, wedi'i ddiwygio i gymryd i ystyriaeth ganlyniadau'r ymatebion ymgynghori a'r dystiolaeth lafar yr oedd wedi'i chlywed. Mae'r Gorchymyn arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol yn adlewyrchu newidiadau a wnaed yn y Gorchymyn posibl o ganlyniad i ystyriaethau'r pwyllgor.

## Y cefndir

*Yr hyn y mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn anelu at ei sicrhau*

9. Mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ceisio rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn i Fesurau Cynulliad gael eu cyflwyno mewn perthynas â datblygu a chynnal rhwydweithiau o briffyrdd gan yr awdurdodau priffyrdd yng Nghymru, a hynny ar gyfer cerdded a beicio yn bennaf.

10. O'i gymeradwyo, byddai'n fodd i Fesur gael ei gyflwyno a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau priffyrdd yng Nghymru ddatblygu a chynnal

---

[1] Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgorau, y Pwyllgor Deisebau, 8 Tachwedd 2007, *Paper 2 - Petition: Sustrans Call on The National Asembly for Wales to Develop and Maintain a Network of Traffic Free Shared Use Paths*, [ar 1 Mehefin 2009]

rhwydweithiau o briffyrdd i'w defnyddio'n bennaf gan gerddwyr neu feicwyr neu'r ddau.

11. Bydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig yn helpu Gweinidogion Cymru i wireddu eu nodau strategol mewn trafnidiaeth, yn yr amgylchedd, mewn twristiaeth ac yn iechyd pobl yng Nghymru.

*Y cefndir polisi*

12. Mae *Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006*[2] yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu trafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon a darbodus yn ogystal â gofyniad statudol bod rhaid cynhyrchu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Cafodd *Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*[3] ei chyhoeddi ym mis Mai 2008. Mae'r strategaeth yn nodi'r pum maes allweddol canlynol lle mae Llywodraeth Cymru'n dweud bod angen gwneud cynnydd sylweddol:

- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a ffactorau eraill sy'n effeithio ar yr amgylchedd
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus a sicrhau gwell integreiddio rhwng y moddau
- Gwella cysylltiadau a hygyrchedd rhwng aneddiadau a safleoedd allweddol ledled Cymru ynghyd â chysylltiadau Cymru gyfan sydd o bwys strategol
- Gwella'r cysylltiadau rhyngwladol
- Gwella diogelwch a diogeledd.

13. Cafodd strategaeth 20 mlynedd llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch hamdden yng Nghymru, *Dringo'n Uwch,*[4] ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2005. Mae *Dringo'n Uwch – Y Camau Nesaf*[5] a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2006 yn esbonio'r camau y bydd y llywodraeth yn eu cymryd tuag at Gymru fwy heini ac iach, gan gynnwys adeiladu ar *Strategaeth Cerdded a Beicio Cymru*[6] a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2003.

14. Mae cynllun gweithredu'r llywodraeth *Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio 2009-2013,*[7] a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2009, yn cynnwys yr amcanion canlynol a fyddai'n cael eu helpu gan Fesur a gâi ei gyflwyno o dan y cymhwysedd deddfwriaethol a fyddai'n cael ei roi gan y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig:

---

[2] Deddf Tranfnidiaeth (Cymru) 2006 (p.5), Chwefror 2006

[3] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*, Mai 2008

[4] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Dringo'n Uwch*, Ionawr 2005

[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Dringo'n Uwch – Y Camau Nesaf*, Gorffennaf 2006

[6] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Walking and Cycling Strategy for Wales*, Rhagfyr 2003

[7] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio 2009-2013*, Chwefror 2009

- Gwella iechyd a lles y boblogaeth drwy gynyddu gweithgarwch corfforol
- Gwella'r amgylchedd lleol ar gyfer cerddwyr a beicwyr
- Annog teithio cynaliadwy fel cam ymarferol i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd
- Cynyddu lefelau o gerdded a beicio drwy hyrwyddo cyfleusterau
- Sicrhau bod cerdded a beicio yn derbyn blaenoriaeth mewn cyllid, cyfarwyddyd a pholisïau trawsbynciol

15. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi: "Er gwaetha'r manteision posibl, mae llawer o bobl yn dal i danddefnyddio'r dewis cerdded a seiclo"*.*[8] Amcangyfrifir bod 47 y cant o aelwydydd Cymru yn meddu ar feic[9] ac eto i gyd dim ond 1.4% o oedolion sy'n beicio i'r gwaith.[10] Dim ond 29 y cant o'r oedolion yng Nghymru sy'n bodloni'r canllawiau ar faint o ymarfer corff y dylen nhw ei wneud bob wythnos a dim ond 21 y cant o bobl ifanc 11, 13 a 15 oed sy'n bodloni'r canllawiau a argymhellir ar gyfer ymarfer corff bob dydd. [11] Gallai cerdded a beicio helpu i gyrraedd y targedau hyn. Mae ffitrwydd beicwyr rheolaidd gystal â ffitrwydd pobl eraill sydd 10 mlynedd yn iau ac mae ymchwil wedi dangos y gall pobl sy'n beicio i'r gwaith yn rheolaidd sicrhau gostyngiad o 40 y cant yn eu risg marwoldeb sy'n gysylltiedig â gweithgarwch corfforol.[12]

16. Carbon deuocsid yw'r prif gyfraniad sydd wedi'i wneud gan bobl i gynhesu byd-eang. Carbon deuocsid oedd yn gyfrifol am ryw 85 y cant o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi'u gwneud gan bobl yn y DU yn 2007. Er 1990 mae allyriadau trafnidiaeth ar y ffyrdd wedi cynyddu 11 y cant ac maen nhw'n gyfrifol am 22 y cant o gyfanswm yr allyriadau carbon deuocsid.[13] Rhai byr yw'r mwyafrif mawr o'r siwrneiau yng Nghymru, a 63 y cant ohonyn nhw'n llai na phum milltir: ceir yw'r prif fath o drafnidiaeth.[14]

17. Yn 2007 cafodd 27 y cant o'r siwrneiau ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) eu gwneud gan bobl a allai fod wedi defnyddio car ond a ddewisodd beidio, ac roedd hyn yn gyfartal â 91 miliwn o siwrneiau yn lle siwrnai mewn car. Mae pob un o'r 338 miliwn o siwrneiau ar yr NCN ar draws y DU yn 2007 yn gyfystyr ag arbed 437,000 tunnell o garbon, sy'n cyfateb i dynnu mwy na

[8] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*, t14, Mai 2008

[9] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*, t19, Mai 2008

[10] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio 2009-2013*, t29, Chwefror 2009

[11] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio 2009-2013*, t5, Chwefror 2009

[12] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Walking and Cycling Strategy for Wales*, t13, Rhagfyr 2003

[13] Gwefan Defra, Environmental Protection, e-Digest of Statistics: Climate Change, *UK Emissions of Carbon Dioxide, Methane and Nitrous Oxide by National Communication Source Category*, [ar 1 Mehefin 2009]

[14] Sustrans, *Sustainable Transport for Wales – Time for Change*, t6, Gorffennaf 2006

180,000 o geir oddi ar y ffordd.[15] Mae manteision yr NCN yn amlwg ond eto i gyd, credir ei bod yn bell o fod yn gyflawn ac nad yw'n gwneud digon o gynnydd "precisely because of a lack of duty placed on relevant authorities".[16]

18. Cytunodd y pwyllgor ar 22 Ionawr 2009 y byddai'n gohirio bwrw ymlaen ymhellach â'r Gorchymyn tan ar ôl i'r Cynllun Gweithredu Cerdded a Beicio gael ei gyhoeddi. Er ei fod wedi croesawu'r cynllun a'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni, penderfynodd y pwyllgor fod angen o hyd, ym marn y pwyllgor, i'r Cynulliad gael rhagor o gymhwysedd er mwyn i Fesur gael ei gyflwyno i osod dyletswydd ar yr awdurdodau priffyrdd yng Nghymru i ddatblygu a chynnal rhwydweithiau o briffyrdd i gerddwyr a/neu feicwyr yn bennaf.

19. Byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig yn sicrhau'r cymhwysedd angenrheidiol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y gallai Mesur gael ei gyflwyno a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau priffyrdd yng Nghymru ddatblygu a chynnal rhwydweithiau o briffyrdd i'w defnyddio'n bennaf gan gerddwyr neu feicwyr neu'r ddau.

## Ymgynghori a'r dystiolaeth a glywyd

20. Cynhaliodd y Pwyllgor Menter a Dysgu ymarfer ymgynghori ynghylch y cymhwysedd deddfwriaethol y gofynnir amdano. Cytunwyd ar y cwestiynau ymgynghori yn y Pwyllgor ar 24 Medi 2008 ac fe'u cyhoeddwyd i'r ymgyngoreion wedyn.

21. Daeth cyfanswm o 19 o ymatebion ysgrifenedig i law. O'r rhain, rhoddodd 13 dystiolaeth lafar ychwanegol i'r Pwyllgor Menter a Dysgu rhwng 22 Hydref 2008 a 26 Mawrth 2009. Mae'r ymatebion manwl ar gael ar wefan Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.[17]

### *Cymhwysedd deddfwriaethol*

22. Y consensws eang ymhlith yr ymatebwyr oedd eu bod yn cytuno y dylai cymhwysedd deddfwriaethol gael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dim ond Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth a anghytunodd â'r egwyddor hon.

23. Yn gryno, roedd y rhesymau a roddwyd o blaid yr egwyddor yn cynnwys:

- Er bod y pwerau eisoes gan Weinidogion Cymru, dydyn nhw ddim yn cael eu gorfodi'n ddigonol yn yr awdurdodau priffyrdd.

---

[15] Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgorau, Y Pwyllgor Menter a Dysgu, 3 Gorffennaf 2008, *Paper 2: Handling of petitions – Sustrans*, [1 Mehefin 2009]

[16] Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgorau, Y Pwyllgor Menter a Dysgu, 12 Tachwedd 2008, *Papur 1 : Gorchymyn arfaethedig drafft y pwyllgor (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llwybrau Di-draffig) 2009 - Cynhadledd Fideo: Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru* , [1 Mehefin 2009]

[17] Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgorau, *Y Pwyllgor Menter a Dysgu*, [ar 1 Mehefin 2009]

- Rhaid gosod dyletswydd ar yr awdurdodau priffyrdd gan nad yw ‘annog’ yr awdurdodau priffyrdd i gymryd cerddwyr a beicwyr i ystyriaeth yn ddigon i godi’r mater o ran eu blaenoriaethau.
- Ar hyn o bryd mae’r ddeddfwriaeth berthnasol yn dameidiog a byddai’n fuddiol ei hadnewyddu.
- Byddai’n hybu newid dulliau teithio ac yn sicrhau bod Cymru’n debyg i wledydd Ewropeaidd eraill o ran cerdded a beicio.
- Byddai’n hybu ffyrdd iachach o fyw ac ymarfer corff.
- Byddai’n hyrwyddo gostyngiad o ran defnyddio ceir preifat ac yn helpu felly i fynd i’r afael â heriau’r briglif olew a newid hinsawdd sy’n cael ei beri gan bobl.
- Byddai o les ar gyfer twristiaeth a’r economi yng Nghymru.
- Byddai’n caniatáu datblygu rheilffyrdd segur a choridorau gwyrdd eraill.
- Mae’n bwysig cael rhwydwaith o briffyrdd sy’n gelfydd eu cynllun, sy’n cael eu cynnal yn dda ac sy’n ddi-fwlch.

24. Y prif resymau a roddwyd gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth dros wrthwynebu’r egwyddor oedd:

    - Mae gan Weinidogion Cymru bwerau yn y maes hwn yn barod.
    - Byddai bwrw ymlaen â’r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn gwyro adnoddau oddi wrth fwrw ymlaen â rhaglen ddeddfu Llywodraeth Cymru.
    - Pe bai’r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn mynd yn ei flaen mae’n bosibl y ceid pwysau ariannol newydd arwyddocaol pe bai unrhyw Fesur dilynol yn mynd yn benodol iawn ei natur.
    - Byddai angen i unrhyw gynnydd posibl yn y Gyllideb gael ei dalu drwy ostwng cyllidebau eraill a’r gwariant ar raglenni o fewn yr Adran Economi a Thrafnidiaeth.

25. Yr unig fater o egwyddor a godwyd mewn perthynas â geiriad y Gorchymyn posibl oedd hwnnw a godwyd gan y grwpiau anabledd, mewn perthynas â chynnwys dyletswydd benodol i roi sylw i hawliau personau anabl. Roedd y pwyllgor o’r farn bod yr egwyddor o driniaeth gyfartal wedi’i hymgorffori yn adran 35 o *Ddeddf 2006* ac felly nad oes angen cyfeiriad penodol ati mewn Gorchymyn sy’n ceisio rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i’r Cynulliad Cenedlaethol. Er hynny mae’r pwyllgor yn cydnabod pryderon y grwpiau anabledd ynghylch rhannu llwybrau ac mae o’r farn bod hyn yn fater y mae’n rhaid rhoi sylw iddo mewn unrhyw Fesur neu ddeddfwriaeth ddatganoledig a fydd yn codi o’r Gorchymyn.

26. Mae geiriad y Gorchymyn arfaethedig wedi'i newid o'r hyn a geid yn y Gorchymyn posibl a fu'n destun yr ymarfer ymgynghori.  Mynegodd nifer o dystion amheuon ynghylch y term "Llwybrau Didraffig" yn nheitl y Gorchymyn, er enghraifft a fyddai sgwteri a chadeiriau olwynion modur yn cael eu cynnwys neu beidio.  Am y rheswm hwn, mae'r term "Llwybrau Didraffig" wedi'i ddisodli gan y term "Priffyrdd a Thrafnidiaeth" yn y teitl ac mae'r Mater wedi'i newid i ddarllen "i'w defnyddio'n bennaf gan gerddwyr neu feicwyr neu'r ddau".

**Hyd a Lled y Gorchymyn arfaethedig**

27. Byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig yn ychwanegu'r mater canlynol i faes 10 o Atodlen 5:

*Mater 10.2*

*Darpariaeth sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau priffyrdd yng Nghymru mewn perthynas â datblygu a chynnal rhwydweithiau o briffyrdd i'w defnyddio'n bennaf gan gerddwyr neu feicwyr neu'r ddau.*

28. Mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ceisio rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn i Fesurau Cynulliad gael eu cyflwyno mewn perthynas â datblygu a chynnal rhwydweithiau o briffyrdd yn bennaf ar gyfer cerdded a beicio yng Nghymru.

29. O'i ganiatáu, byddai'n fodd i Fesur gael ei gyflwyno a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau priffyrdd yng Nghymru ddatblygu a chynnal rhwydweithiau o briffyrdd i'w defnyddio'n bennaf gan gerddwyr neu feicwyr neu'r ddau.

30. Mae egwyddor triniaeth gyfartal wedi'i hymgorffori yn adran 35 o Ddeddf *2006*. O ganiatáu'r Gorchymyn, byddai'n rhaid i unrhyw Fesur neu ddeddfwriaeth ddatganoledig a fyddai'n codi o'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol gydymffurfio'n llawn ag adran 35 o Ddeddf 2006.

**Eithriadau**

31. Dim

**Terfynau daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad**

32. Mae Adran 93 o Ddeddf 2006 yn gwahardd Mesurau Cynulliad rhag cael effaith ac eithrio o ran Cymru. Mae'n darparu na fydd darpariaeth mewn Mesur Cynulliad yn gyfraith i'r graddau y mae y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae darpariaeth y tu allan i gymhwysedd os bydd yn gymwys ac

eithrio o ran Cymru, neu os bydd yn rhoi, yn gosod, yn addasu neu’n tynnu swyddogaethau y gellir eu harfer ac eithrio o ran Cymru (neu'n rhoi pŵer i wneud hynny). Mae eithriadau cyfyngedig ar gyfer mathau penodol o ddarpariaethau atodol, er enghraifft, darpariaeth sy'n briodol i wneud darpariaethau'r Mesur yn effeithiol, darpariaeth sy'n galluogi darpariaethau'r Mesur i gael eu gorfodi a darpariaeth sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

33. Mae'r cyfyngiad ynghylch swyddogaethau ac eithrio o ran Cymru yn golygu na fyddai'r Cynulliad drwy Fesur yn gallu rhoi swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â Chymru i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru nac unrhyw awdurdod cyhoeddus arall

**Swyddogaethau Gweinidogion y Goron**

34. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig hwn ynddo'i hun yn ceisio addasu na thynnu oddi ar unrhyw un o Weinidogion y Goron unrhyw swyddogaethau sydd ganddo. Yn rhinwedd Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaiff y Cynulliad drwy Fesur newid swyddogaethau Gweinidogion y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. O ran unrhyw gynigion yn y dyfodol a all effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion y Goron, ymgynghorir â’r Adran briodol yn Llywodraeth y DU a cheisir dod i gytundeb am unrhyw gynigion i newid neu addasu'r swyddogaethau hyn.

**Casgliad**

35. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, mae’r Pwyllgor Menter a Dysgu yn dymuno cynnig y dylai cymhwysedd deddfwriaethol gael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â datblygu a chynnal rhwydweithiau o briffyrdd gan yr awdurdodau priffyrdd yng Nghymru, yn bennaf ar gyfer cerdded a beicio, yn nhermau’r Gorchymyn arfaethedig sydd ynghlwm.

**Mehefin 2009**